

## PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019

Yn Cynghorydd Patel(Cadeirydd)  
bressenol:

Cynghorwyr Derbyshire, Philippa Hill-John, Owen Jones,  
Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood

### 86 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Caro Wild (Aelod Cabinet Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth) ac Andrew Gregory (Cyfarwyddwr, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd).

### 87 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

Y Cynghorydd Bob Derbyshire	Eitem 6	Personol - Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd
Y Cynghorydd Ashley Wood	Eitem 6	Personol - Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd
Y Cynghorydd John Lancaster	Eitem 6	Personol - Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd

### 88 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth a'r 2il Ebrill 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 89 : CRAFFU CYN PENDERFYNIAD: GOLEUADAU STRYD LED AR RWYDWAITH PRIFFYRDD PRESWYL

Croesawodd y Cadeirydd Gary Brown (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i'r cyfarfod.

Rhoddodd Gary Brown [gyflwyniad](#) i'r Aelodau.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwad am hyn, codi cwestiynau neu geisio eglurder am y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny isod:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffigyrau cyfrifedig ar gyfer arbed ynni dros 17 mlynedd a gofynnwyd a fyddai'r elw yn mynd i'r cyfrifon refeniw neu gyfalaf. Dywedodd y swyddogion, gan na allai fod unrhyw warant o ran unrhyw gynnydd mewn costau ynni, bod dull ceidwadol wedi'i gymryd. Pan fydd mwy o wybodaeth ar gael, penderfynir a ddylid ail-fuddsoddi'r arbedion i dalu cyfalaf neu ail-fuddsoddi mewn gwelliannau pellach. Gallai gostyngiad pellach mewn sgowntio nos ac yng nghostau deunyddiau, er enghraifft yr

unedau eu hunain arwain at arbedion pellach hefyd. Nodwyd y byddai unrhyw golofnau addurniadol yn cael eu hôl-ffitio'n hytrach na defnyddio uned safonol ar golofnau safonol. Dim ond yr uned fydd yn cael ei newid.

- Nododd yr Aelodau nad oedd y Swyddog yn ymwybodol bod unrhyw hawliadau llwyddiannus yn erbyn yr awdurdod o ganlyniad os nad oedd goleuadau digonol.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod modd cyflawni'r arbedion o 45% y cyfeiriwyd atynt, sef cyfanswm o tua £270 mil trwy newidiadau mewn arwyddion ac offer goleuedig, er enghraifft bolardiau.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch llwyddiant y System Reoli Ganolog ac fe'u hysbyswyd, er bod problemau cychwynnol yn y lle cyntaf, ei fod bellach yn gweithredu'n llwyddiannus iawn, ac yn aml bydd preswylwyr yn ffonio mewn perthynas â goleuadau ymlaen yn y dydd, caiff ei godi gan y System Reoli Ganolog ac mae swyddogion yn mynd allan. Yn aml iawn, y broblem yw adar yn eistedd ar y synwryddion.
- Gofynnodd yr Aelodau am oleuadau ffryntiadau tai pobl a dywedwyd wrthynt, er y bu achlysuron pan fu'n bosibl codi lefel y goleuadau, neu newid yr uned ychydig, mai pwrpas y goleuadau stryd yw goleuo'r briffordd a'r stryd. Rhagwelir, pan fydd y newid mewn goleuadau yn cael ei gyflwyno, efallai y bydd cynnydd yn nifer y galwadau gan drigolion yn mynegi pryder nad yw eu ffryntiadau bellach yn cael eu goleuo, fodd bynnag, byddant i gyd yn cael eu trin yn unigol.
- Nododd yr Aelodau y bydd cyflwyno'r goleuadau LED newydd ar draws y rhwydwaith cyfan yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2019 a'r targed ar gyfer cwblhau yw 18 mis, rhagwelir y bydd angen rhaglen waith i ddelio â strydoedd gyda llawer o barcio ar y stryd i sicrhau llif traffig llyfn. Dywedodd y swyddogion na fydd parciau a thai yn cael eu newid, ni fu'n bosibl cael yr union wybodaeth am asedau sydd eu hangen i raglennu'r gwaith, ond gellir ei wneud maes o law.

Nododd yr Aelodau hefyd fod yr arbedion o'r newidiadau mewn goleuo rhwydweithiau ffyrdd strategol a gwblhawyd o'r blaen wedi rhagori ar y targedau a osodwyd.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch sefyllfa'r unedau, ni chyfeiriwyd atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac a yw'n debygol y byddai'n achosi unrhyw olau llachar i drigolion oedrannus. Dywedodd y swyddogion fod llawer o waith ymgynghori wedi'i wneud ar gyfer y rhwydwaith strategol, am y rheswm hwnnw bod goleuadau LED 3000 Kelvin yn cael eu gosod gan eu bod yn rhoi golau mwyn.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

90 : CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD - CYNLLUN  
CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH - 2019/20

Croesawodd y Cadeirydd Jane Cherrington (Rheolwr Gweithredol, Strategaeth Gwastraff a Gorfodi) i'r cyfarfod a roddodd [gyflwyniad](#) i'r aelodau.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwad am hyn, codi cwestiynau neu geisio eglurder am y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny isod:

- Mewn perthynas â thyfu bwyd, gofynnodd yr Aelodau a oedd rhaglen yn cynnwys hyn i gael ei datblygu gydag ysgolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Strategaeth Fwyd i edrych ar gompostio a thyfu cartref. Bydd rhywfaint o waith peilot gyda Llywodraethwyr Ysgol yn Ysgol Uwchradd Llanisien i edrych ar yr ethos cyfan o gompostio yn tyfu a gwerthu.
- Holodd yr Aelodau pryd y disgwylir y Cynlluniau Gweithredu Wardiau a dywedwyd wrthynt y byddent ar gael mewn tua 6 mis oherwydd bod angen sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn bresennol ac mewn ffurf briodol i'r we.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y wybodaeth bod y diweddariad am feicio yn dod o'r rhai sy'n cerdded neu'n defnyddio bysiau ac nid gan bobl sy'n defnyddio eu ceir. Dywedodd y Swyddogion y byddai'r wybodaeth gael ei darparu gan Paul Carter maes o law.
- Gofynnodd yr Aelodau am y DPA newydd ar gyfer casglu gwastraff ac fe'u hysbyswyd ei fod yn ymwneud â sicrhau bod yr holl ddata mewn un lle, ei fod yn dryloyw ac yn gadarn a hefyd yn sicrhau y gellir casglu gwybodaeth am y rheswm dros golli'r casgliad a pham mae methwyd y preswlydd.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes unrhyw safle ailgylchu cartref wedi'i nodi ar hyn o bryd ar gyfer gogledd y ddinas, mae ateb rhanbarthol yn cael ei ystyried gan fod awdurdodau cyfagos hefyd yn ystyried newid eu deinameg gwastraff cartref.
- Holodd yr Aelodau am y camau sy'n cael eu cymryd i gadw'r ffigyrau ailgylchu i fyny gan gofio'r ymdrech gref i aildefnyddio cynwysyddion plastig. Hysbyswyd yr Aelodau nad yw'r ffigyrau ailgylchu rhagamcanol ar gyfer 2018-2019 ar gael ar hyn o bryd, er bod gwelliant ers y llynedd. Nid yw effaith negyddol aildefnyddio cynwysyddion plastig yn beth da, ond bydd ymgyrch addysg newydd i sicrhau bod preswylwyr yn ymwybodol o'r hyn y gellir ei ailgylchu a ble - mae angen sicrhau nad yw preswylwyr yn dioddef o ddryswch plastig. Bydd ymdrech newydd o ran ailgylchu cynhyrchion hylendid. Mae cyfleuster yng Nghaerfyrddin yn cymryd cynhyrchion hylendid.

- Gofynnodd yr aelodau am y system a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth ailgylchu, a gofynnwyd, o gofio'r digideiddio, pa mor hir cyn y bydd yn cymryd munudau i ddarparu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu. Dywedodd y swyddogion fod yr adroddiad bob amser yn ôl-ddyledion gan fod yn rhaid cysylltu â'r prosesydd terfynol i gadarnhau beth ddigwyddodd i'r gwastraff. Nid dim ond cofnodi'r data yw hyn, mae'n ymwneud â chael y data gan broseswyr. Daw'r ffigyrau terfynol o gronfa ddata Cyfoeth Naturiol Cymru.

Holodd yr Aelodau a ellir darparu gwybodaeth am bwysau casglu gwastraff ar gyfer rhai ardaloedd a / neu lwybrau penodol. Hysbyswyd yr aelodau y gellir darparu gwybodaeth am faint a gesglir, ond nid faint sy'n cael ei ailgylchu. Gall casglu data (gwybodaeth o fewn y cab) roi gwybodaeth ynghylch pa strydoedd sy'n cael eu colli ond ni all y tunelledd metrig a gesglir ddarparu gwybodaeth benodol.

- Holodd yr Aelodau am y sgôr CAG a roddwyd mewn perthynas â chael gwared ar farchnadoedd byd-eang ar gyfer y cynnyrch ailgylchu terfynol a'r heriau a ddaw yn ei sgil. Dywedodd swyddogion fod marchnadoedd byd-eang yn crebachu ac nad yw'r broses ailgylchu ar gael mwyach. Mae Caerdydd eisoes yn darparu cynnyrch o ansawdd uchel i'r marchnadoedd hynny, mae gwydr yn ystyriaeth wahanol ac mae peilot yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ailgylchu hynny. Ystyrir atebion lleol bob amser. Mae cynhyrchion hylendid yn enghraifft dda, gan mai Caerfyrddin neu'r Eidal yw'r dewis. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill i geisio sicrhau marchnadoedd lleol.
- Holodd yr Aelodau am nifer y casgliadau a gollwyd, yn enwedig gwastraff gardd, yn ddiweddar ac fe'u hysbyswyd y bu anawsterau, sef y cwmni a ddarparodd waith cynnal a chadw cerbydau yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr a arweiniodd at dorri llawer o gerbydau ac yna'r tywydd. Y ffrwd gyntaf sy'n cael ei gohirio yw'r gwastraff gwyrdd. Roedd materion mwy diweddar yn ymwneud ag argaeledd staff oherwydd salwch, mae cynllun gweithredu yn cael ei baratoi gyda'r Aelod Cabinet y gellir ei ddarparu maes o law. Pan fydd patrymau salwch maent yn cael eu holrhain gydag AD. Fel rhan o'r strategaeth, mae gwaith yn edrych ar y parthau casglu ar gyfer y ddinas gan gofio rhai o'r materion a thwf y ddinas hefyd.
- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am glampio a chymryd cerbydau ymaith, y strategaeth aer glân a ph'un a oes gennych y lefel angenrheidiol o gynilo ar gyfer 2020 - 2021 a beth ydynt. Dywedwyd wrth yr Aelodau, bod y cynllun wedi dechrau o fewn y mis diwethaf a gellid darparu'r ystadegau; mae'r strategaeth aer glân ar amser ar hyn o bryd ac mewn perthynas â lefel yr arbedion mae cynigion yn cael eu hailweithio gyda'r Cabinet, ynghyd â phrofi'r proffil ariannol a'r modelau busnes.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

91 : GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR - CYNLLUN BUSNES  
DRAFFT 2019/20

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael (Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd); Y Cynghorydd Linda Thorne (Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau), y Cynghorydd Norma Mackie (Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd Caerdydd) Dave Holland (Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir), Helen Picton (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaeth Defnyddwyr, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir) a Christina Hill (Rheolwr Gweithredol, Gwarchod y Cyhoedd a Gorfodi Tai, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir) i'r cyfarfod i gyflwyno'r cynllun.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r aelodau gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwad am hyn, codi cwestiynau neu geisio eglurder am y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny isod:

- Gofynnodd yr Aelodau, o ran diogelu pobl agored i niwed, beth sy'n cael ei wneud ynglŷn â monitro pobl oedrannus sy'n destun sgamiau, gwerthiannau dan bwysau a galwadau heb wahoddiad a dywedwyd wrthynt fod gwaith y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn y maes hwnnw fel arfer yn adweithiol ond mae gwaith rhagweithiol hefyd yn digwydd. Yn ogystal â'r unigolion sy'n agored i niwed mae yna hefyd ymgysylltiad â gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â nhw. Mae llawer o fentrau gyda phartneriaid, yr heddlu ac asiantaethau eraill i gyflwyno'r neges.
- Cododd yr aelodau parthau a manau galw heb wahoddiad a'r sticeri a ddarparwyd. Mae ffynonellau cyllid ar gyfer y cynlluniau hynny wedi'u tynnu'n ôl, mae sticeri a chardiau cydio ar gael o hyd sy'n cael eu dosbarthu. Os hoffai cymunedau redeg eu cynlluniau eu hunain gellid darparu help a chyngor.

Mewn perthynas â masnachwyr twyllodrus, darparwyd camerâu cof i rai pobl agored i niwed a gosodwyd atalwyr galwadau hefyd. Bu achosion lle mae swyddogion wedi mynychu o fewn 30 munud i alwad gael ei gwneud am alwyr heb wahoddiad.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y nifer o eiddo gwag a pha mor hir y buont yn wag ac fe'u hysbyswyd bod y dangosydd perfformiad a ddefnyddir yn ymwneud ag eiddo sydd wedi bod yn wag am 6 mis. Bu newidiadau yn y ffordd y codwyd treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo gwag, ond nid yw'r ffigyrau wedi'u meintoli eto.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cael adroddiad annibynnol ar dai gwag, un o'r materion a godwyd oedd yr amser a gymerwyd i gael Gorchymyn Prynu Gorfodol.

- Holodd yr Aelodau am yr archwiliad o sgoriau bwyd a hylendid a'r amserlen ar gyfer darparu sgôr bwyd. Dywedodd swyddogion unwaith y bydd busnes newydd wedi'i gofrestru, yr ymweliad i sefydlu'r sgôr hylendid yw 28 diwrnod. Nid yw'r targed hwnnw bob amser yn bosibl oherwydd swyddi gwag staff, ar hyn o bryd mae 5 swydd wag o ran y gwasanaeth fwyd ar hyn o bryd. Mae ymgyrch recriwtio ar y gweill ac mae cyfweiliadau i'w cynnal yn fuan.
- Holodd yr Aelodau a oedd digon o gefnogaeth i ddelio â'r rhai sy'n cyflawni'r twyll neu'r sgamiau, a dywedwyd wrthynt, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth ganolbwyntio ar faterion penodol, er enghraifft gwerthiant tybaco, bod angen adnoddau digonol. Nid oes gan gynghorau'r adnoddau ac mae Llywodraeth Cymru yn cael eu herio am hyn. Mae angen adnodd pwrpasol.
- Mewn perthynas â'r cwestiwn am y cydweithio rhwng y Cynghorau, dywedwyd wrth yr Aelodau bod llwyddiant y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn bennaf i aelodau etholedig sy'n eistedd ar y Pwyllgor, ac maent yn ymwybodol mai pwrpas y gwasanaeth yw diogelu'r cyhoedd. O ganlyniad, ni fu unrhyw wahaniaeth barn enfawr.
- Gofynnodd yr Aelodau am yr heriau presennol sy'n wynebu'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ynglŷn â Brexit. Dywedodd y swyddogion mai'r brif her fyddai'r ansicrwydd, wrth ystyried cefnogi'r economi leol - mae busnesau'n holi beth fydd eu statws cyfreithiol.
- Holodd yr Aelodau am y sefyllfa mewn perthynas â thaliadau ac a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno taliadau mewn gwasanaethau eraill. Hysbyswyd swyddogion bod yr holl daliadau'n cael eu hadolygu, mae amser wedi'i dreulio yn sicrhau, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu, y gost o roi'r trwyddedau hynny, hyfforddi a ffurfio perthynas drwy Gynllun Awdurdod Sylfaenol a oedd yn darparu cyngor y codir tâl amdano. Nodwyd y gall rhai ardaloedd gynhyrchu incwm mewn eraill, dim ond costau y gallwn eu hadennill. Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir hefyd yn edrych ar arfer gorau mewn awdurdodau eraill wrth ystyried ffrydiau incwm er mai'r peth pwysig i'w gofio yw nad yw'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn wasanaeth cynhyrchu refeniw.
- Nododd yr Aelodau y rhagwelir y bydd y premiwm ar dreth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag yn arwain at gyllid ychwanegol ac y bydd y gwasanaeth yn elwa.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yna risg i wasanaethau y tu allan i oriau ac fe'u hysbyswyd bod hynny gan ei fod yn dibynnu ar swyddogion yn gwirfoddoli. Er bod lwfans bach, mae'n dibynnu ar ewylllys da. Gobeithir y bydd yr aelodau newydd hynny o staff yn

barod i wirfoddoli.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

92 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL  
DRAFFT 2018/19

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor ar gyfer 2018-2019, sy'n adlewyrchiad o ba waith a wnaed gan y Pwyllgor.

Dyweddodd y Prif Swyddog Craffu y byddai'r Cadeirydd yn anfon rhestr o eitemau ymlaen i'w cynnwys o bosibl ar raglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol ac y byddai'n cael ei dosbarthu drwy e-bost i gael adborth oddi wrth y Pwyllgor. Byddai'r rhestr yn cael ei defnyddio i lywio'r rhaglen waith ar gyfer 2019-2020.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

93 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH 2018/19 -  
ADRODDIAD AR LAFAR

Amlinellodd y Prif Swyddog Craffu'r eitemau posibl i'r rhaglen waith am y mis nesaf. Bu'r Aelodau'n trafod eitemau ac yn blaenoriaethu pa eitemau yr hoffent weld eu cyflwyno a phryd.

94 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau bryd yn y cyfarfod hwn.

95 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyweddwyd wrth yr Aelodau fod Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Mawrth 4ydd Mehefin 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm